COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD GWENER, 21 MEHEFIN 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Mr P Clarke – Cadeirydd

M J Williams G Thomas P Baker

Yn Bresennol yn Rhithiol

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Annie Ginwalla | Rheolwr Tîm ar y Cyd a Dirprwy Gynghorydd Cyfreithiol, OGCC |
| Louise Morland | Swyddog Ymchwilio, OGCC |

Datganiadau o Fuddiant
Dim.

**159. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 21 Mehefin 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

## 160. Eithrio'r Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Ystyriodd y Pwyllgor p'un ai i gynnal y cyfarfod mewn sesiwn gaeëdig, gan ystyried argymhellion gan yr Ombwdsmon y dylai barhau yn sesiwn agored gan nad oedd dim o fewn dogfennaeth yr Ombwdsmon nad oedd yn addas i'w ryddhau'n gyhoeddus. Mynegodd y Cynghorydd Jones yn ogystal awydd am i'r cyfarfod gael ei gynnal yn gyhoeddus.<br><br>PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr uchod, penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r cyfarfod gael ei gynnal mewn sesiwn agored gan nodi na ddylai aelodau o'r Pwyllgor wneud cais am i gyfarfodydd gael eu cynnal yn gyfrinachol yn ddiangen pan nad oedd gofyn gwneud hynny. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 21 Mehefin 2024 |

## 161. Ymchwiliad gan yr Ombwdsmon o dan adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r cyfarfod dros dro er mwyn penderfynu a ddylid caniatáu i wahoddedigion fod yn bresennol ar gyfer agweddau penodol o'r cyfarfod. Penderfynwyd y byddai'n rhaid i wahoddedigion adael y cyfarfod yn ystod camau cychwynnol y drafodaeth ac y byddent yn cael eu gwahodd yn ôl i mewn wedi hynny.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau o adroddiad yr Ombwdsmon oedd yn gysylltiedig â ffeithiau cydnabyddedig a rhai dadleuol, yn ogystal â statws y Cynghorydd Jones fel lled-gyflogwr un o destunau'r datganiadau dan sylw. Gwrandawodd y Pwyllgor hefyd ar sylwadau gan y Diffynnydd ar y datganiadau yn unol â gweithdrefn cyn-wrandawiad y Pwyllgor.<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor ddelio gyda'r achos mewn tri cham, yn unol â'u gweithdrefn fabwysiedig. Ceir manylion eu penderfyniad mewn perthynas â phob cam isod.<br><br>**<u>Canfyddiadau Ffeithiol:</u>**<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y ffeithiau dadleuol i ddechrau arni. Cafwyd cyfraniadau gan OGCC a'r Aelod. Galwyd |

| | |
|---|---|
| | ar Ms Jeanie Monk hefyd fel tyst ar gyfer yr Aelod ynghylch y ffaith ddadleuol o ran a wnaeth yr Aelod fethu â chydymffurfio â cheisiadau OGCC mewn perthynas â'r ymchwiliad. Daeth y Pwyllgor i gasgliad unfrydol yn ôl yr hyn sy’n debygol:<br><br>• Nad oedd y postiad ynghylch “chimps” wedi'i gyfeirio at y Cynghorydd Farr gan fod aelodau eraill o fewn y grŵp cyfryngau cymdeithasol ac roedd yr Aelod wedi anfon neges at y Cynghorydd Farr ar unwaith i ddweud nad oedd y postiad amdani hi. Gan hynny nid oedd y ffaith hon wedi'i phrofi;<br>• Nad oedd y cyfeiriad at “chimps” yn gamgymeriad tecstio a bod hyn wedi’i brofi;<br>• Bod y postiad am y Cyn-glerc yn annerbyniol ac yn amhriodol ac felly penderfynodd y Pwyllgor fod y ffaith hon wedi'i phrofi;<br>• Penderfynodd y Pwyllgor ar sail y dystiolaeth y profwyd y ffaith fod y Cynghorydd Jones wedi methu â chydymffurfio gyda cheisiadau OGCC mewn perthynas â'u hymchwiliadau.<br><br>**<u>Torri'r Cod Ymddygiad</u>**<br><br>Yn dilyn y canfyddiadau ffeithiol, aeth y Pwyllgor yn ei flaen i wrando ar gyfraniadau gan OGCC o ran p'un ai a oedd y ffeithiau yn cyfateb i dorri'r Cod Ymddygiad. Cafwyd cyfraniadau gan yr Aelod yn ogystal.<br><br>Roedd y Pwyllgor wedi'u bodloni bod y Cod Ymddygiad yn berthnasol ar adeg y digwyddiad gan fod yr Aelod yn ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol. Wedi ystyriaeth ofalus o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r paragraffau canlynol o God Ymddygiad y Cyngor:<br><br>4(b) – dangos parch ac ystyriaeth o eraill<br><br>4(c) – peidio â defnyddio ymddygiad bwlïaidd neu aflonyddu ar unrhyw berson<br><br>6 (1)(a) – peidio ag ymwneud â mater y gellid ei ystyried yn rhesymol fel dwyn anfri ar eich swyddfa<br><br>6(2) – cydymffurfio gydag unrhyw geisiadau gan Swyddog Monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir yn unol â'u priod bwerau statudol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Penderfynodd y Pwyllgor fod y postiad yn cyfeirio'n eglur at y Cyn-glerc ac nad oedd modd iddo fel cyflogai i'r Cyngor unioni hyn yn gyhoeddus. Roedd y sylwadau'n amharchus ac wedi'u hanelu at niweidio enw da'r Clerc. Roedd peidio â dileu'r postiad nac ymddiheuro wedi achosi gofid |

| | |
|---|---|
| | parhaus i'r Clerc, ac roedd hynny'n gyfystyr â bwlio. Yn achos y ddau ganfyddiad, daeth y Pwyllgor hefyd i'r casgliad eu bod wedi dwyn anfri ar y Cyngor. Roedd gan y sylwadau y potensial i danseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y Cyngor. Mewn perthynas â pharagraff 6(2) o'r Cod, penderfynodd y Pwyllgor fod tor-amod wedi digwydd gan fod y Cynghorydd Jones wedi datgelu gwybodaeth i'w dystion ac nad oedd y Pwyllgor yn derbyn eu bod yn gweithredu mewn capasiti swyddogol fel ei gynghorwyr. Roedd wedi dweud yn flaenorol nad oedd wedi rhannu gwybodaeth ond newidiodd ei safbwynt wrth i'r gwrandawiad fynd rhagddo.<br><br>Wrth ystyried pa gosb oedd yn briodol, gwrandawodd y Pwyllgor ar gyfraniadau gan OGCC gan gymryd i ystyriaeth y Canllawiau ar Sancsiynau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru. Yn ogystal, fe wnaethant ystyried y ffactorau lliniarol a gwaethygol a gwrando ar gyfraniadau gan yr Aelod.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor bod cosb yn briodol ac o roi ystyriaeth i'r ffactorau lliniarol a gwaethygol, penderfynwyd yn unfrydol ar waharddiad o ddeufis.<br>Hysbysir yr Aelod, OGCC a Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o benderfyniad y Pwyllgor drwy'r Hysbysiad Penderfynu hwn.<br><br>Bydd y pwyllgor hefyd yn argymell i Bwyllgor Safonau llawn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y dylai ystyried mynychu er mwyn arsylwi cyfarfodydd Cyngor Tref Porthcawl. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 21 Mehefin 2024 |

Daeth y cyfarfod i ben am 14:58.